

Lee Waters AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddChildren@senedd.cymru

18 Mai 2022

Annwyl Jayne,

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 31 Mawrth ynglŷn â'r adolygiad o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Mae'n bleser gennyf eich hysbysu imi gyhoeddi canfyddiadau'r adolygiad, a gynhaliwyd yn 2021, ar 31 Mawrth. Mae'r adroddiad, ynghyd â fersiwn ar gyfer pobl ifanc a'r gymuned, ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad isod.

[Adolygiad 2021 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr \(Cymru\) \(2008\) | GOV.WALES](#)

Fel y cafodd ei amlinellu yn fy Natganiad Ysgrifenedig i Aelodau o'r Senedd yr wythnos diwethaf, byddwn ni nawr yn bwrw ymlaen â rhagor o waith gyda rhanddeiliad, yn unol â'r pynciau a nodwyd yn yr adroddiad, i gefnogi unrhyw newidiadau arfaethedig i sicrhau eu bod yn deg, yn gymesur ac yn fforddiadwy. Rwy'n awyddus i edrych ar sut y caiff teithio gan ddysgwyr ei ddatblygu ochr yn ochr â'n cynlluniau i ddiwygio bysiau gan fod teithio i'r ysgol yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth bysiau ehangach. Rwy'n bwriadu ymgynghori ynghylch canlyniadau cam nesaf y gwaith yn hwyrach eleni.

Byddwn i'n croesawu barn a thystiolaeth y Pwyllgor i helpu i lywio'r gwaith hwn.

Yn gywir

Lee Waters AS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.